Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Dechrau Disglair**

**Dyffryn Y Glowyr**
**Heol Bethel**
**Lower Cwmtwrch**
**Swansea**
**SA9 2PT**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Meithrinfa Dechrau Disglair

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br><br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Dechrau Disglair Committee |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Click or tap here to enter text.16 Ionawr 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Excellent** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Excellent** |
| **Yr Amgylchedd** | **Excellent** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Excellent** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae llais y plant yn gryf iawn. Maent yn cyfathrebu yn dda iawn am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Mae bron pob plentyn yn teimlo yn ddiogel a hapus. Maent yn datblygu perthnasoedd cryf gyda'u cyfoedion a staff. Mae plant yn mwynhau eu profiadau chwarae yn fawr ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith. Mae staff yn rhyngweithio yn effeithiol dros ben gyda'r plant. Maent yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn ehangu datblygiad plant yn llwyddiannus iawn.

Mae gan bobl sy'n rhedeg y feithrinfa fesurau effeithiol iawn ar waith i sicrhau fod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant a diogelwch y plant. Mae'r amgylchedd modern newydd mewn cyflwr arbennig o dda tu fewn a thu allan. Mae dewis eang o adnoddau a chyfarpar o safon uchel sydd yn diwallu anghenion datblygiadol yn effeithiol tu hwnt.

Mae gan bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth arbennig o dda ar gyfer y dyfodol, a maent yn rhannu hyn gydag eraill. Mae prosesau recriwtio cadarn yn eu lle a mae bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn arwain a rheoli'r staff yn effeithiol. Mae'r hunanwerthusiad a'r cynllun gweithredu yn bwrpasol a phartneriaethau yn rhagorol.

| **Llesiant** | **Excellent** |
|---|---|

Mae llais y plant yn gryf iawn. Mae rhan fwyaf y plant yn cyfathrebu yn dda iawn am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Gwelir enghraifft o hyn pan roedd plentyn yn mynd at staff gan ddweud *"I need a sticker for helpu!"* a'r staff yn ymateb yn syth. Gwelir plant yn dweud wrth staff eu bod eisiau dillad glân. Mae bron pob plentyn yn cael cyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sydd yn effeithio arnynt. Gwelir plant yn dewis cael dymi, tedi, neu flanced personol er mwyn setlo yn hapus a gwelir plant yn dewis wisgo esgidiau glaw tu fewn a hyn yn cael ei barchu. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael ei werthfawrogi yn fawr. Teimlai plant yn hyderus i wisgo dillad gwisgo lan yn llawn hyder wrth symud o'r ardal mewnol i'r ardal allanol. Mae rhan fwyaf y plant yn ymgynnull ar y mat i eistedd a chanu ac anghenion eraill yn cael eu gwerthfawrogi wrth iddynt ddilyn eu diddordebau personol wrth chwarae yn corneli chwarae o'u dewis yn ystod amserau cylch. Mae teimladau'r plant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi yn fawr. Clywir plant yn dweud wrth staff bod nhw eisiau mwy a hyn yn cael ei barchu.

Mae bron pob plentyn yn teimlo yn ddiogel a hapus. Mae plant yn datblygu teimladau da iawn o gyflawniad ac yn awyddus i siarad am yr hyn maent yn gwneud. Pan oedd plentyn yn chwarae ar y beiciau balans tu allan, dywedodd *"Look! I'm doing it!!"* a staff yn ymateb i'r plentyn gan ddweud *"Yes! Excellent!"* a'r plentyn yn gwenu. Mae plant yn setlo yn gyflym iawn wrth fynd at staff neu at eu hoff corneli chwarae. Mae'n amlwg fod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn i'r feithrinfa. Maent yn symud o gwmpas yn naturiol a hyderus iawn tu fewn a thu allan a chlywir plentyn yn dweud *"I found my chair!"* Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymdopi yn dda iawn wrth gyrraedd y feithrinfa. Amser byrbryd, clywir plant yn trafod eu tripiau teuluol gyda staff gan ddweud eu bod wedi bod i weld anifeiliaid ar eu gwyliau yn ddiweddar.

Mae bron pob un plentyn yn datblygu perthnasoedd cryf gyda'u cyfoedion a staff. Gwelir plant yn dod mewn yn dawel a phan welwyd aelod staff cyfarwydd, rhedodd y plant atynt i rhoi cwtsh iddynt. Gwelir plant yn dod at staff am cwtsh ar ôl cwympo hefyd. Mae rhan fwyaf y plant yn rhyngweithio yn dda iawn. Maent yn rhannu adnoddau yn yr ardaloedd chwarae yn llwyddiannus, megis rhannu cyfarpar yn y twba tywod, llyfrau, doliau a llestri te yn y cornel chwarae rôl. Mae bron pob plentyn yn cydweithio yn frwdfrydig wrth fynd ati i chwarae yn rhydd. Gwelir rhai plant yn chwarae gyda phobl bach byd bach ac yn dangos model o ddoctor i staff ac yn dweud wrth staff mai 'dadi' yw e. Mae plant yn dangos sensitifrwydd tuag at blant eraill. Maent yn gofalu bod eu ffrindiau yn cael tro i ddefnyddio llwyau i droi te yn y gornel chwarae rôl ac eraill yn rhoi llaw pan gwympodd plentyn. Mae plant yn gwrando ar gyfarwyddyd gan staff i rhannu swigod gydag eraill.

Mae bron pob plentyn yn cael cyfleoedd i ymgolli yn eu diddordebau personol gyda phob math o gorneli ac adnoddau. Maent wrth eu bodd yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae. Mae plant yn llawn cymhelliant ac yn llwyr ymroi i'w chwarae. Gwelir plant yn dewis chwarae gydag adnoddau corfforol gan chwarae pêl, rhannu yn dda a chwerthin yn uchel wrth daflu tedi i'r awyr gyda'r blanced. Clywir plant yn gweiddi mewn hapusrwydd a chyffro wrth ddal y swigod. Mae plant hefyd yn hoffi cyfnodau tawel yn y gornel ddarllen wrth drafod llyfrau megis 'Smot' gyda staff. Mae plant yn mwynhau eu rhyddid i archwilio yn eu hamgylchedd dan do ac awyr agored. Maent yn mwynhau chwarae gyda thywod tu allan gan ddefnyddio tryciau a gwneud traciau gyda'r tywod. Mae plant yn mwynhau'r cyfleoedd i weld y cysylltiad rhwng bywyd 'go iawn.' Defnyddir adnoddau megis llestri Tsiena, dŵr a bagiau te i wneud te eu hunain.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu ac yn dod yn ddysgwyr annibynnol. Wrth chwarae, mae plant yn dangos sgiliau arbennig wrth ddefnyddio beiciau cydbwyso, dewis llyfrau a throi tudalennau yn gywir. Gwelir plant yn chwarae gyda blociau pren gan adeiladu un ar ben y llall yn llwyddiannus a chyfri gyda chymorth staff. Mae plant yn dilyn eu diddordebau wrth ddatblygu sgiliau annibyniaeth effeithiol iawn i'w hoed. Maent yn arfer gydag arferion dyddiol wrth rhoi menyn ar ei cracer yn annibynnol ac yn arllwys eu dwr/llaeth eu hunain. Mae rhan fwyaf o blant yn mynd i 'nôl eu cotiau ac yn rhoi cot 'nôl ar y bachyn tra bod plant eraill yn cael cefnogaeth i gyflawni hyn.

| **Gofal a Datblygiad** | **Excellent** |
|---|---|

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith. Mae staff y feithrinfa yn dilyn trefniadau glanhau dyddiol ac yn cadw cofnodion. Maent yn defnyddio menig i helpu'r plant yn ystod adegau bwyd ac yn sicrhau bod pob plentyn wedi golchi eu dwylo cyn bwyta. Mae staff yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer newid cewynnau gan sicrhau bod arwynebeddau yn lân, defnydd o cyfarpar diogelu personol (CDP) a glanhau'r ardal newid ar ôl newid pob cewyn. Mae gan bron pob aelod o staff y feithrinfa dystysgrif cymorth cyntaf paediatreg, hylendid bwyd a diogelu ac maent yn gyfredol. Mae staff y feithrinfa yn dangos dealltwriaeth gadarn ar bolisi a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant pan yn trafod senarios posib. Mae trefniadau arbennig o dda ar waith ar gyfer goruchwylio'r plant yn ofalus. Gwelir staff yn cyfri plant yn ofalus wrth iddynt symud o'r ardal fewnol ac allanol gan sicrhau bod cymarebau yn cael eu diwallu yn gyson. Mae'r staff yn deall a gweithredu'r gweithdrefnau diogelwch ac yn eu rhoi ar waith. Mae staff yn gwneud a recordio gwiriadau ac asesiadau risg yn hynod o ofalus yn ddyddiol. Caiff cofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth perthnasol eu cadw a'u llofnodi'n briodol. Mae gan y staff weledigaeth ar alergeddau ac anoddefiadau ar gyfer plant a staff, a gaiff rhain eu harddangos. Mae darpariaeth o fwyd a diod maethlon yn cael ei gynnig ar adegau byrbryd sydd yn cynnwys ffrwythau a grawnfwydydd yn ogystal â dŵr a llaeth. Maent yn dod a diod personol o adref. Er hyn, roedd rhai diodydd yn cynnwys siwgr. Mae plant yn dod a phecyn bwyd o adref ar gyfer amser cinio a mae rhain yn faethlon iawn ar y cyfan.

Mae bron pob aelod o staff yn rhyngweithio yn effeithiol dros ben gyda'r plant. Mae staff yn ymfalchïo yn lwyddiannau'r plant ar eu beiciau balans gan ddweud *"Woo hoo da iawn"* ac yn rhoi clod i blentyn wrth gyflawni jigso gan ddweud *"Good job -da iawn!"* Mae bron pob staff yn rheoli'r rhyngweithiau yn bositif iawn ac yn trafod gofal yn y cartref trwy ddweud wrthynt i fod yn ofalus ddim i losgi wrth wneud teisen. Wrth chwarae, maent hefyd yn annog plant i wisgo helmed i fod yn ddiogel. Mae staff yn deall gweithredu polisi ymddygiad mewn ffordd bositif, cadarnhaol a chyson iawn. Maent yn annog plant i rhannu yn effeithiol iawn. Er enghraifft, dywedant wrth blant *"Good sharing a diolch am helpu"* pan yn rhannu adnoddau 'gwneud te'. Maent yn annog plant i rhannu tu allan hefyd. Clywir plentyn yn dweud *"I want to go on a bike"* a staff yn ymateb gan ddweud *"Gei di tro ar ôl dy ffrind*". Mae staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn deall eu ymddygiadau. Hynny yw, maent yn deall bod gan ambell blentyn anhawster gyda rhannu ac yn delio gyda hyn yn arbennig o dda. Enghraifft da o hyn oedd pan gwelir staff yn cynnig adnoddau tebyg, megis swigod i blant pan roeddent eisiau chwarae gyda'r un adnodd. Maent yn fodelau rôl arbennig o dda ac yn modelu cwrteisi wrth rhyngweithio gyda phlant ac yn annog plant i fod yn gwrtais i'w gilydd wrth chwarae, ac wrth dderbyn byrbryd.

Mae staff yn dangos diddordeb yn niddordebau'r plant. Er enghraifft, tu allan, gwelir plentyn yn gweld bws ac yn gweiddi "*Bws*!!!" a staff yn dweud wrthi "*Ie bws melyn yn dod! Dwed hwyl fawr!*"

Mae bron pob aelod o staff yn rhyngweithio gyda'r plant yn iaith y cartref ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar bob adeg. Mae staff yn hyrwyddo datblygiad plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, pan bod staff yn gweld plant yn mynd at y llyfrau a phosau, maent yn mynd ati i fwydo iaith, datblygu dealltwriaeth y plant o liwiau, enwi anifeiliaid, ffrwythau, a siapau yn llwyddiannus iawn. Maent yn defnyddio geirfa fathemategol wrth iddynt wneud te gan ddefnyddio geiriau fel 'mawr a bach' wrth drafod llestri a llwyau. Mae staff yn modelu a hybu iaith trwy ganu caneuon megis 'hwyl fawr ffrindiau' a 'un bys, dau fys', a 'clap clap un dau tri.' Mae staff yn sicrhau bod cynnydd yn natblygiad y plant gan ddefnyddio arsylwadau i gynllunio ar gyfer camau nesaf yn eu chwarae. Maent yn gwrando ar farn plant yn gyson ac yn rhyngweithio yn gadarnhaol gyda chynhesrwydd a charedigrwydd tuag atynt. Maent yn parchu bod rhai ddim yn barod i eistedd i gael stori a chân. Mae staff yn ymwybodol o ddatblygiad y plant ac yn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf yn effeithiol iawn. Mae'r wybodaeth yma yn cael ei rhannu gyda rhieni trwy 'app' ar-lein ac ar lafar. Mae rhan fwyaf y staff yn deall anghenion addysgol unigol ac yn cymryd camau pwrpasol er mwyn diwallu eu hanghenion, rhoi cymorth emosiynol, therapi lleferydd a iaith, a hefyd anghenion dietegol a iechyd yn hynod o dda. Mae staff yn defnyddio dwylo i arwyddo dŵr/llaeth amser snac er mwyn hybu dealltwriaeth. Mae staff yn annog plant i fod yn annibynnol mewn ffordd cadarnhaol gan annog ddyfalbarhad ac ysgogi datblygiad y plentyn pan bod cyfleoedd yn codi. Gwelir staff yn annog plant i wisgo cotiau eu hunain.

| Yr Amgylchedd | Excellent |
| --- | --- |

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa fesurau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant a diogelwch y plant. Mae'r amgylchedd tu fewn a thu allan y feithrinfa yn hollol ddiogel. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y feithrinfa yn monitro systemau CCTV a system diogelwch ar y drysau allanol i atal y cyhoedd rhag ddod mewn. Maent yn gwirio bathodynnau ymwelwyr. Mae asesiadau risg cyffredinol cynhwysfawr yn cael eu cyflawni a'u hadolygu yn rheolaidd. Maent yn diweddaru asesiadau risg tân a mae cofnodion cynnal a chadw yn gyfredol. Er hyn, mae manylder y driliau tân yn brin.

Mae'r amgylchedd modern newydd mewn cyflwr arbennig o dda tu fewn a thu allan. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, gan ddarparu preifatrwydd ac urddas priodol i'r plant. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar yn addas ar gyfer pob oedran a datblygiad, ac mae digonedd o le i'r plant allu cymdeithasu a symud o gwmpas yn effeithiol iawn. Mae'r amgylchedd yn creu ymdeimlad o berthyn. Hynny ydy, mae gwaith crefft ar Santes Dwynwen yn cael ei arddangos tu fewn i'r feithrinfa a gwelir arddangosfeydd o luniau o deuluoedd y plant ar y wal. Mae nifer arbennig o dda o adnoddau a chyfarpar ar lefel y plentyn i'w galluogi i ddewis a dethol wrth chwarae yn rhydd gyda darnau bach a mawr.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod nifer arbennig o dda o adnoddau a rhain mewn cyflwr gwych. Maent yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a phob cam o ddatblygiad er mwyn hybu a meithrin sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol drwy chwarae synhwyraidd, chwarae dychmygol a chreadigol, gweithgareddau byd bach, chwarae corfforol a chwarae rôl. Mae nifer helaeth o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar gael i'r plant. Mae ardal awyr agored yn estyniad sylweddol i'r amgylchedd chwarae a dysgu. Maent yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y plant trwy gynnig amrywiaeth eang a chyffrous o adnoddau a gweithgareddau sy'n ysgogi chwilfrydedd ac yn ennyn diddordebau a dychymyg plant. Hynny yw, maent yn defnyddio'r amgylchedd allanol i ddatblygu sgiliau dringo, cydbwyso, creadigol, a chwarae yn y mwd a thywod. Gwelir adnoddau o ansawdd uchel tu allan gan gynnwys teganau adeiladu, dringo, chwilota, cerddoriaeth, cornel darllen, cegin fwd, adeiladu, ceir a beiciau balans. Maent yn tyfu perlysiau tu allan, a gwelir staff yn rhoi cyfleoedd i blant i archwilio trychfilod wrth chwarae, gan annog plant i edrych o dan matiau i chwilota amdanynt. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod nifer da iawn o adnoddau darllen, doliau, gwisgoedd a posau bwrdd ar gael, sydd yn ennyn diddordeb y plant am y gymdeithas ehangach, gan ddathlu cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth diwylliannol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Excellent**

Mae gan bobl sy'n rhedeg y feithrinfa weledigaeth arbennig o dda ar gyfer y dyfodol, ac maent yn rhannu hyn gydag eraill. Maent yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn cyrraedd safonau gofynnol cenedlaethol. Rhannwyd y ddatganiad o ddiben gyda AGC yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn wybodus iawn am eu cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn sicrhau bod cofnodion gofynnol yn cael eu cadw yn gywir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn sicrhau bod polisïau yn eu lle, ac mae rhain ar waith yn barhaus. Maent yn sicrhau trefniadau trylwyr wrth drefnu a rhannu gwybodaeth gyda staff, ac o ganlyniad i hyn, mae cymarebau staffio ac anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn rheoli'r staff yn effeithiol. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gosod disgwyliadau uchel wrth y staff ac yn cynnal trafodaethau am bolisïau a gweithdrefnau mewn cyfarfodydd staff yn rheolaidd. Maent yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant ac yn rhoi gweithdrefnau sefydlu da ar waith ar gyfer gwirfoddolwyr a staff. Teimlai staff yn rhan o deulu'r feithrinfa ac maent yn hynod o hapus yno. Dywedir staff fod y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gefnogol a bod digonedd o hyfforddiant yn cael eu gynnig iddynt er mwyn datblygu eu gyrfa proffesiynol. Mae'r feithrinfa yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn rhagweithiol wrth sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion gorau cyfredol, gan fodloni gofynion canllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Maent yn ymwybodol iawn o ddyletswydd atal mewn perthynas â radicaleiddio a gweithgarwch terfysgol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yr hyfforddiant mwyaf diweddar ar egwyddorion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyfer ymarferwyr mewn rolau statudol. Mae gan bob aelod o'r staff wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a sefydliadau eraill mewn ffordd amserol. Maent yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i ddiogelu plant yn hynod o dda gan ymateb yn gadarn i gwestiynau am sefyllfaoedd posib.

Mae'r hunanwerthusiad a'r cynllun gweithredu yn bwrpasol, ac yn cynnig adnodd ar gyfer creu cynllun gweithredu, a gaiff ei fonitro a'i archwilio'n barhaus gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa. Maent yn casglu ac yn adolygu barn staff y feithrinfa, rhieni, plant ac eraill er mwyn creu targedau a newidiadau i'r feithrinfa.

Mae'r partneriaethau yn rhagorol. Maent yn codi arian trwy wneud picnics, barbeciws a chodi arian at elusennau yn flynyddol. Mae ganddynt bartneriaeth dda gyda'r ysgol leol a'r gymuned ehangach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn manteisio ar gyfleoedd i

gyfathrebu gyda rhieni trwy ddefnyddio app sy'n galluogi rhieni i weld lluniau, gweld datblygiad a trafod anghenion y plant yn hwylus iawn. Mae cylchlythyron yn cael eu rhannu gyda rhieni sydd yn rhoi gwybodaeth iddynt am newidiadau, trefniadau a diwrnodau pwysig. Mae cydweithio cadarn rhwng y bobl sy'n rhedeg y feithirnfa ac asiantaethau allanol. Mae rhieni'r plant yn canmol y gwasanaeth yn fawr. Mae eu sylwadau yn cynnwys,
*"Staff are absolutely amazing, our child loves attending the setting"* a *"Staff always make sure there is a wide range of play activities available for them and we are very lucky to have a wonderful new setting."* Mae rhieni yn teimlo bod y feithrinfa yn rhannu gwybodaeth am ei plentyn yn arbennig o dda a maent yn hapus iawn yn cynnydd eu plant, yn enwedig yn y Gymraeg.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1 Datblygu'r manylder sydd yn cael ei gofnodi yn ystod driliau tân

R2 Annog rhieni i ddarparu dŵr i'w plant yn unol â chanllawiau 'Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant' Llywodraeth Cymru

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 14 | No supernumerary person in charge | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/04/2023